PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD

DYDD LLUN, 11 CHWEFROR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Goodway(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Berman, Jones, Jones-Pritchard, Lister, Kelloway, McKerlich, Keith Parry a/ac Wong |

34 : CADEIRYDD

Nodwyd bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2018 wedi ethol y Cynghorydd Goodway fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2018/19

35 : AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nodwyd bod Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 24 Mai 2018 wedi cytuno ar yr aelodaeth a’r Cylch Gorchwyl canlynol: -

**Aelodaeth**

Y Cynghorwyr Jennifer Burke-Davies, Rodney Berman, Joe Carter, Susan Goddard, Russell Goodway, Keith Jones, Mike Jones-Pritchard, Kathryn Kelloway, Ashley Lister, Rod McKerlich, Keith Parry a Peter Wong.

**Cylch Gorchwyl**

I adolygu Cyfansoddiad y Cyngor ac i argymell unrhyw newid i’r Cyngor a/neu’r Cabinet, ac eithrio y bydd gan y Pwyllgor (yn amodol ar gyngor y Swyddog Monitro) yr awdurdod i wneud y newidiadau canlynol ar ran y Cyngor:-

(a) Drafftio gwelliannau i wella eglurder a chael gwared ag anghysonderau.

(b) Diweddaru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a materion cofnodi.

(c) Diwygiadau i Reolau Gweithdrefnol Ariannol, Contractau a Thir (yn amodol ar gyrchu cyngor gan y Swyddog S.151).

36 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau buddiannau ar gyfer y cyfarfod hwn.

## 37 : COFNODION

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 38 : COD LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL DRAFFT

Cafwyd y Cod Llywodraethiant Corfforaethol drafft i'w drafod ac i wneud sylwadau arno cyn creu fersiwn terfynol i'w gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Darparodd yr adroddiad fanylion am yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan y Pwyllgor Archwilio ac ynglŷn â chod cryfach a argymhellwyd yn ymwneud â chyfeiriadau i Dwyll.

Croesawodd y Pwyllgor God Llywodraethiant y Cyngor wedi'i ffurfioli y mabwysiadwyd ynddo y saith egwyddor llywodraethu da a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a SOLACE.

PENDERFYNWYD – argymell y Cod Llywodraethiant Drafft i'r Cyngor ei gynnwys yng Nghyfansoddiad Caerdydd sydd wedi bod yn ganlyniad cadarnhaol

## 39 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS YN Y CYNGOR LLAWN

Darparodd yr adroddiad gyfle i'r Pwyllgor ystyried y rheolau presennol yn ogystal â newid a awgrymwyd yn ymwneud â'r rheol ar Gwestiynau Cyhoeddus mewn cyfarfodydd y Cyngor.

Cynigiwyd caniatáu i bobl sy'n cyflwyno Cwestiynau Cyhoeddus yn unol â CPR 18, 19 a 25 eu darllen yn ystod cyfarfodydd y Cyngor fel y bydd y trafodaethau yn glir ac yn dryloyw yn arbennig i'r rheiny sy'n gwylio'r gweddarllediad ac fel cwrteisi i'r Holwr Cyhoeddus.

Ystyriodd y Pwyllgor p'un a oedd unrhyw newidiadau ychwanegol y mae'n dymuno eu gwneud i'r rheolau presennol a p'un a oedd digon o gyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â'r ystod o gyfarfodydd cabinet a phwyllgor sy'n ofynnol yn ôl yr Awdurdod.  Cytunwyd nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau eraill ar yr adeg hon.

PENDERFYNWYD – Argymell i'r Cyngor diwygio Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor, gyda Rheol 18 yn caniatáu i Holwyr Cyhoeddus ddarllen eu cwestiynau yn ystod cyfarfod y Cyngor.

## 40 : PENODI AELODAU PWYLLGOR DIRPRWYOL

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried trefniadau'r penodiad o Aelodau Pwyllgor Dirprwyol yn unol â'r weithdrefn ddrafft a nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad.  Byddai'r Rheol Weithdrefn newydd yn caniatáu i ddirprwyo mewn cyfarfodydd pwyllgor dim ond pan na fydd yn bosib i Aelod fod yn bresennol dros gyfnod estynedig o amser ac o ganlyniad i un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

(i) Ymrwymiadau teuluol neu waith na ellir eu hosgoi:
(ii) Salwch difrifol;
(iii) Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu;
(iv) Absenoldeb am resymau teuluol eraill, wedi ei gymeradwyo gan

Reolau Gweithdrefn Absenoldeb;
(v) Cyfrifoldebau gofal;
(vi) Rheswm da arall.

Byddai'r rheolau yn cael eu gweithredu gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD - Bod

1. Y darpariaethau a'r egwyddorion ar gyfer penodi dirprwy Aelodau wedi eu cymeradwyo;

2. Argymell i'r Cyngor fabwysiadu ac ymgorffori'r rheol weithdrefn yn Rheolau Gweithdrefnau Cyfarfodydd Pwyllgor a'r Rheolau Gweithdrefnau Craffu.

## 41 : DIWEDDARIAD AR FAINT AC AELODAETH GRWPIAU GORCHWYL A GORFFEN Y PWYLLGORAU CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad dilynol ar ganlyniadau trafodaethau â Chwipiau Grwpiau Pleidiol y Cadeiryddion Craffu ar Faint y Pwyllgor Craffu ac ar Aelodau'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen fel y gallai ystyried unrhyw newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefnau Craffu a argymhellwyd.

Mewn trafodaethau a Chadeiryddion a Chwipiau Grwpiau cytunwyd y dylid maint y pwyllgorau craffu aros heb newid ac er eglurder a thryloywder argymhellwyd nodi'r maint a gytunwyd yn y Cyfansoddiad drwy newid Rheol 1 y Rheolau Gweithdrefnau Craffu.

Mae trefniadau'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn caniatáu i Aelodau Etholedig anweithredol nad ydynt o reidrwydd yn aelodau pwyllgor craffu gymryd rhan a chynnig eu harbenigedd i ymholiadau Gorchwyl a Gorffen. Cynigiwyd hefyd y dylai uchafswm yr Aelodau ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen fod yn naw.

Nid oedd y Pwyllgor yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig a chroesawyd cyfraniad gan Aelodau ar draws y Cyngor at waith y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

PENDERFYNWYD – argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r Rheolau Gweithdrefnau Craffu diwygiedig rhif 1 a 2.

(a) Gosod maint y pum pwyllgor craffu a gytunwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor;

(b) Cadarnhau y gall aelodaeth o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen gynnwys unrhyw aelodau etholedig anweithredol, yn amodol ar uchafswm o naw Aelod ar unrhyw Grŵp Gorchwyl a Gorffen;

(c) Cadarnhau y gellir gwahodd aelodau nad ydynt yn Gynghorwyr i gymryd rhan mewn ymholiadau Gorchwyl a Gorffen fel ymgynghorwyr arbenigol i Grŵp Gorffen a Gorchwyl.

42 : RHEOLAU GALW I MEWN CRAFFU

Cyflwynwyd yr adroddiad i alluogi'r pwyllgor i ystyried p'un a yw'n dymuno gwneud unrhyw newidiadau i'r rheolau sy'n llywodraethu'r Galwadau am graffu, yn enwedig i newid Rheol 12 fel y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i un aelod alw i mewn y penderfyniad. Darparwyd tystiolaeth gan ddinasoedd craidd eraill ar eu trefniadau galw i mewn.

Nododd y Pwyllgor bod nifer yr achosion o alw mewn penderfyniadau yn isel yn ystod y pum mlynedd diwethaf  a gan y cyflwynwyd yn y 12 mis diwethaf reol na ellir galw i mewn penderfyniadau sydd wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu, roedd yn bwysig mewnosod y newid hwn gyntaf cyn cynnal adolygiadau pellach.

PENDERFYNWYD – Bod Rheol Weithdrefn Galw i Mewn Craffu 12 yn aros heb newid.

43 : DIRPRWYAETHAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae'r pwyllgor yn nodi mai diben yr adroddiad hwn oedd rheoleiddio dirprwyaethau swyddogion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynllunio ar 15 Mawrth 2018 ac sy'n cynnwys Cynllun Dirprwyo y Cyfansoddiad.

PENDERFYNWYD – y cytunodd y Pwyllgor, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Gyfarfod Llawn y Cyngor, ymgorffori yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, Cynllun Dirprwyo y canlynol: -

(i) Y dirprwyaethau cynllunio a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynllunio ar 15 Mawrth 2018 fel y'u nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad;

Y dirprwyaethau priffyrdd a gymeradwywyd gan bwyllgor cynllunio ar 13 Mehefin 2013 fel y'u nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad

44 : BLAEN GYNLLUN

Cyflwynwyd y Blaen Gynllun i'r Pwyllgor a chafodd ei nodi

45 : CYFARFODYDD Y DYFODOL

Byddai dyddiad cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael ei bennu yn rhan o'r Calendr Cyfarfodydd ar gyfer y Flwyddyn Ariannol nesaf, 2019-20.